

Ar ddydd Mawrth, 20 Ionawr 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen oedd yn y Gadair ac roedd yr holl aelodau'n bresennol ar wahân i'r Cyng. K Walker oedd yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Un Llais Cymru yn Aberaeron.

Croesawodd y Cyng. Owen bawb i gyfarfod cyntaf 2009 gan gynnwys cynrychiolydd Age Concern Ceredigion, Mrs G Raw Rees. Gwahoddwyd Mrs Raw Rees i annerch y Cyfarfod. Disgrifiodd yr amcanion, gwasanaethau a chefnogaeth a gynigir gan Age Concern yng Ngheredigion ac esboniodd sut roedd yn cael ei ariannu. Mynegodd ei gobaith y byddai trigolion yn cynnig eu gwasanaeth fel Hyrwyddwyr Cymunedol. Dilynwyd yr anerchiad gan sesiwn holi ac ateb byr a diolchwyd i Mrs Raw Rees cyn iddi adael, yna dechreuodd Cyfarfod y Cyngor am 7.30 pm.

- 2405** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. K Walker
- 2406** **Materion Personol:** Ymunodd yr Aelodau gyda'r Cadeirydd i fynegi dymuniadau gorau i'r Cyng. a Mrs Mervyn Hughes ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf. Hefyd PENDERFYNWYD anfon llythyr i longyfarch Elinor Thorogood o Benrhyncoch sy'n aelod o Dîm Triathlon Iau Prydain Fawr a enillodd Fedal Efydd yn y Gemau Olympaidd Iau yn Awstralia'n ddiweddar.
- 2407** **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim
- 2408** **Cadarnhau Cofnodion (Amgaead A):** PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion fel cofnod cywir o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2008. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:
Ffyrdd heb eu Graeanu: Disgwylir o hyd am Adroddiad ar Gyfarfod y Cyng. Sir D. Suter gyda'r Adran Briffyrdd i drafod diffyg graeanu ffyrdd gwledig. Gyda golwg ar geisiadau'r Cyngor Cymuned am finiau graean i'w gosod mewn safleoedd anghenus o fewn y Gymuned; mewn ateb llafar dwedodd yr Adran Briffyrdd nad oedd y safleoedd a enwyd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer biniau graeanu ychwanegol.
Map Cymuned Trefeurig: Disgwylir o hyd am gopi drafft o'r Map
- 2409** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig - Cyngor ariannol: Mewn adroddiad ysgrifenedig dwedodd y Cyng. K Walker iddi fynychu Cyfarfod yn Ysgol Trefeurig ar 9 Ionawr. Rhoddodd y siaradwr, Mr Geoff Jones o'r WCVA gyngor defnyddiol i'r Grŵp ynghylch benthyciadau sydd ar gael i ariannu eu prosiect dros yr hir dymor.
Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Nant y Moch: Mewn adroddiad ysgrifenedig, ynghyd â chopi o'r Cofnodion, rhoddodd y Cyng. K Walker hanes cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyswllt a gynhaliwyd yn Nhalybont ar 21 Tachwedd 2008. I gyd-fynd â hynny, cafwyd cais gan y Swyddog Cyswllt Cymunedol i'r Cyngor drafod y Cynllun Ymgysylltu Cymunedol a'r Cylch Gorchwyl er mwyn awdurdodi eu cynrychiolydd i dderbyn y rhain ar ran y Cyngor yng Nghyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt ar 17eg Chwefror.
Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNWYD y bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn astudio'r dogfennau'n fanwl ac, os byddan nhw'n fodlon â'r cynnwys, byddant yn awdurdodi'r Cyng. Walker, fel cynrychiolydd y Cyngor, i arwyddo'r dogfennau.
- Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:**
- 2410** **Ceredigion parthed goleuadau stryd:** I leihau costau, mae Ceredigion wedi penderfynu troi'r rhan fwyaf o'r goleuadau stryd i ffwrdd rhwng canol nos a 5 y bore. Bydd Cynghorau sydd am gadw rhai neu'r cwbl o'r goleuadau ymlaen yn eu cymuned yn gyfrifol am y costau. Cafwyd cynnig i gadw pum lamp ymlaen rhwng y Swyddfa Bost â Thyddyn Seilo ym Mhenrhyncoch. Trechwyd y cynnig. PENDERFYNWYD hysbysu Ceredigion na wneir unrhyw gais i gadw goleuadau stryd ymlaen o fewn Cymuned Trefeurig.
- 2411** **Newid Arfaethedig i'r cyfeiriad post:** Gyda golwg ar y cais i newid cyfeiriad post y cartrefi ym Mhenbontrhydybeddau, mae'r Post Brenhinol wedi gofyn am eglurhad o ffiniau'r pentref. PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau.
- 20
- 2412** **Cylchlythyr Adran Gynllunio Ceredigion:** Dosbarthwyd cylchlythyr ymhlith yr Aelodau yn amlinellu cynlluniau'r adran i wella'r Gwasanaeth.

- 2413 Hyfforddiant Cod Ymddygiad:** Gwahoddiad i Sesiwn Hyfforddi yn Aberystwyth am 6.00 pm ar ddydd Mercher, 28ain Ionawr. PENDERFYNWYD y bydd y Cyng. M Evans a K Walker yn ei fynychu.
- 2414 Ymgyrch i sefydlu Coleg Milfeddygol yn Aberystwyth:** Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i ysgrifennu at Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Addysg yn y Cynulliad Cenedlaethol, i fynegi eu cefnogaeth i'r ymgyrch sy'n cael ei arwain gan Mr Penri James i sefydlu Coleg Milfeddygol yn Aberystwyth.
- 2415 Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ceredigion 2008-2011, a Strategaeth Chwarae (Ddrafft) Ceredigion 2008:** PENDERFYNWYD eu pasio i'r Cyng. Mrs Price eu darllen.
- 2416 Shelter Cymru:** Cais i fynychu Cyfarfod i drafod eu gwaith. PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiolydd i gyfarfod mis Mawrth.
- 2417 Asesiad a Holiadur Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2008:** Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD peidio ag ymateb i'r ddogfen swmpus hon. Anfonwyd ymateb i holiadur tebyg gan yr Heddlu ym mis Tachwedd 2008.

MATERION ARIANNOL

- 2418 Gwiriodd y Cyngor gopïau o'r mantolion banc ar 31.12.08.** Roedd y rhain yn dangos - Cyfrif *Business Money Manager* £8,026.30. Cyfrif Cymunedol: £1,000.45
Cyfanswm £9,026.45
- 2419 Cynnydd yn y costau cyfieithu:** Hysbysiad y bydd y costau cyfieithu'n cynyddu £2 i £47 fesul 1,000 o eiriau o Ionawr 2009. PENDERFYNWYD derbyn.

Gwiriwyd yr anfonebau canlynol a chytunwyd i'w talu:

- 2420 L Griffiths:** Costau cyfieithu Tachwedd a Rhagfyr 08: **£128.33** siec 889
- 2421 Cyng. DR Morgan:** Teithio i Gyfarfod ym Mhonrhydfendigaid 11/10/08 - **£22.15** siec 890
- 2422 Cyng. K Walker:** Teithio i (i) Gyfarfod yn Nhalybont 25/11/08 a (ii) Cyfarfod yn Aberaeron 02/12/08 - **£38.42** siec 891
- 2423 Viking Direct:** Drwm newydd ar gyfer yr Argraffydd - £58.48+ TAW £8.92: **£68.40** siec 892
- 2424 Adolygu Cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diwedd 31/03/09 (Amgaead B):**
Mewn adolygiad o Gyllideb y Cyngor, sef £15,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol dangosodd Amgaead B y trafodion ariannol o 1af Ebrill hyd 31ain Rhagfyr 2008 a dangosodd derbynebau'n gwneud cyfanswm o £15,671.15 yn erbyn gwariant o £7,715.13 **gan adael balans o £7,956.02;** wedi'i gadarnhau gan Ddatganiad Cysoni a'i wirio yn erbyn Cyfriflenni Banc; Llyfr Derbynebau a Thaliadau a llyfr sieciau.

Wrth adolygu'r gyllideb o 1af Ionawr hyd 31ain Mawrth 2009 cytunwyd y dylid clustnodi Gwariant Cyfalaf o £655 ar gyfer y Map o Ardal Trefeurig; £3,400 ar gyfer rhodd-daliadau, ac amcangyfrif £1,728 ar gyfer gwariant cyffredinol (gan gynnwys Tâl Aelodaeth ULIC; costau cyfieithu, cyflenwadau swyddfa, taliadau ffôn, postio, rhentu a hurio ystafelloedd, gwagio biniau baw cŵn, cyflogau a chostau teithio). **Cyfanswm costau a amcangyfrifir hyd 31.03.09 - £5,783.** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, felly, dylai'r Cyngor gael balans o tua £1,502 + ad-daliad TAW am y cyfnod 01.02.08 - 31.12.08 o £611: **Cyfanswm £2113**

- 2425 Ystyried ceisiadau am rodd-daliadau ar gyfer 2008/09:** PENDERFYNWYD gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

2426 Ystyried y gyllideb ar gyfer 2009/2010 (Amgaead C)

Wrth drafod amcanion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10, PENDERFYNWYD yn sgil yr argyfwng ariannol presennol y dylid gwneud pob ymdrech i gadw'r gwariant ar lefel debyg i un eleni. Ni ddylid dechrau ar unrhyw brosiect mawr ond bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi bwriad Pwyllgor Neuadd y Penrhyn i adnewyddu Neuadd y Pentref neu

Er mwyn helpu i baratoi ar gyfer cyllideb 2009/10 lluniwyd Amgaead 'C' er mwyn caniatáu i aelodau gymharu'r amcangyfrifon yn erbyn y costau go iawn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol ac i benderfynu pa symiau i'w clustnodi ar gyfer eitemau gwahanol yn 2009/10.

Yn dilyn trafodaeth faith penderfynwyd ar y gyllideb arfaethedig ganlynol:

Gwariant Cyfalaf - £1,500: Gostyngiad o £1,000 o'r flwyddyn bresennol.

Mae'r eitemau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys hysbysfwrdd ac adnewyddu offer swyddfa o bosib. Penderfynwyd peidio â chynnwys biniau baw cŵn ychwanegol na goleuadau llwybrau troed ychwanegol.

Rhodd-daliadau - £3,500: Mae'r swm hwn yn aros yr un fath

Cronfa wrth Gefn - £1,000: Mae hwn yn aros yr un fath

Gwariant Cyffredinol - £8,000: Addaswyd y symiau a glustnodwyd ar gyfer eitemau amrywiol ond mae'r cyfanswm yn aros yr un fath. (Mae Gwariant Cyffredinol yn cynnwys costau gweinyddu - £4,107; Cynnal a chadw ac atgyweirio - £882; Cyflog a chostau teithio - £3,010).

Bydd angen £14,000 i ariannu'r gyllideb hon.

Bydd hwn yn dod o'r £2,113 yr amcangyfrifir fydd yn cael ei ddwyn ymlaen o gyllideb 2008/09 yn ogystal ag archebiant o £12,000. PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gyllideb

2427 Gosod yr Archebiant ar gyfer 2009/10

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gytuno ar gyllideb o £14,000; PENDERFYNWYD **gosod Archebiant o £12,000 ar Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2010.** Bydd hwn, ynghyd â balans o tua £2,113 fydd yn cael ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn ariannol bresennol yn galluogi Cyngor Cymuned Trefeurig i gwrdd â'i gostau.

2428 Adolygu Asesiad Risg y Cyngor: PENDERFYNWYD gohirio'r eitem hon tan y cyfarfod ym mis Chwefror

2429 Nodwyd y penderfyniad cynllunio canlynol:

A071015 Tir ger Swyddfa Bost Penrhynoch - codi annedd. Rhoddwyd caniatâd

2430 Cadarnhau'r Cyfarfod nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth Chwefror 17eg 2009 am 7.00 pm. Yn Neuadd y Penrhyn os bydd y system wresogi wedi'i thrwsio. Os na, trefnir lleoliad arall.

2431 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:

Parcio ar y llwybr troed ym Mhenrhynoch. Llwyn Prysg – canghennau'n crogi dros y ffordd. Cwblhau'r Llwybr Diogel i'r Ysgol ym Mhenrhynoch.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25 pm.